Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19: Data ymgysylltu manwl ac ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer DINBYCH

## Cynnwys

Cynnwys ..... **Error! Bookmark not defined.**

Pwrpas yr adroddiad hwn ..... 3

Sut cafodd y data ei gasglu ..... 3

Sylwadau gan gynrychiolwyr etholedig a grwpiau rhanddeiliaid eraill ..... 4

Sylwadau a wnaed gan y gymuned ..... 4

Yr Iaith Gymraeg ..... 4

Data arolwg rhagarweiniol 'Adfer Canol y Dref' ..... 5

Adborth o'r cam ymgynghori ..... 5

Dadansoddeg o'r Cyfryngau Cymdeithasol a Phorth Sgwrs y Sir ..... 5

Adborth cynrychiolwyr etholedig a phartneriaid/ rhanddeiliaid ..... 6

Data meintiol arolwg ymateb ar-lein ..... 7

Sylwadau ar y cynigion ..... 1

Crynodeb o'r ymateb ..... 1

Atodiadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 1 – Ymateb Cyngor Tref Dinbych ..... 1

Atodiad 2 – Sylwadau  Dr James Davies, Aelod Seneddol (AS) ..... 1

..... 1

Atodiad 3 – Sylwadau Ann Jones, Aelod o Senedd Cymru ..... 1

..... 1

..... 1

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Nod yr adroddiad hwn yw darparu dadansoddiad manwl o ddata o sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid allweddol a chymuned Dinbych mewn perthynas *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19 ar gyfer Dinbych* Cyngor Sir Dinbych.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae sylwadau a wnaed rhwng 21 Mehefin 2020 a 24 Gorffennaf 2020 wedi'u cynnwys.

## Sut cafodd y data ei gasglu

Daw'r data yn yr adroddiad hwn o:

- Sylwadau a wnaed yn uniongyrchol i'r cyngor trwy e-bost, llythyr, galwad ffôn neu gyfarfod wyneb yn wyneb
- Sylwadau a wnaed trwy e-ddeiseb (wedi'u cau a'u cyflwyno i'r cyngor)
- Sylwadau a wnaed yn uniongyrchol i'r cyngor trwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Sylwadau a wnaed yn uniongyrchol i'r cyngor trwy'r Porth Sgwrs y Sir (hwb ymgysylltu ac ymgynghori ar-lein y Cyngor)

Mae data arall y mae'r cyngor yn ymwybodol ohono, ond na all ei gynnwys i'w ddadansoddi yn cynnwys:

- Sylwadau a wnaed i'r wasg leol neu genedlaethol
- Sylwadau a wnaed gan aelodau o'r gymuned i'r cyngor tref, i gynghorwyr sir, i Aelodau Cynulliad Cymru (AC) neu i Aelodau Seneddol y DU (AS). Sylwch: disgwylir y byddai'r cynrychiolwyr etholedig hyn yn darparu eu hymateb eu hunain, a ddylai gynrychioli unrhyw gyswllt a gawsant gan eu cymuned leol.
- Sylwadau a wnaed ar sianeli cyfryngau cymdeithasol nad ydynt wedi'u sefydlu a / neu heb eu cymedroli gan y Cyngor, gan gynnwys grwpiau Facebook lleol
- e-ddeisebau sydd wedi cael eu creu ond sydd heb gael eu cyflwyno i'r Cyngor eu hystyried

## Sylwadau gan gynrychiolwyr etholedig a grwpiau rhanddeiliaid eraill

Rhwng 21 Mehefin a 24 Gorffennaf, derbyniodd y Cyngor sylwadau oddi wrth y canlynol::

- Dr James Davies, Aelod Seneddol y DU (AS)
- Ann Jones, Aelod o'r Senedd
- Cyngor Tref Dinbych

## Sylwadau a wnaed gan y gymuned

- 3 e-bost
- 3 llythyr
- 44 ymateb ar yr arolwg 'Adfer Canol y Dref' ar wahân
- 858 ymateb i'r arolwg ymgynghori 'Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19'

Mae'r Cyngor yn dymuno nodi ei fod yn ymwybodol o (o leiaf) un grŵp Facebook o'r enw 'Trigolion a Busnesau Dinbych yn erbyn y newidiadau arfaethedig i'r ffordd' - fodd bynnag mae'r grŵp wedi'i restru ar hyn o bryd fel un preifat ac o ganlyniad ni all y Cyngor gael gafael ar unrhyw ddata na rhyngweithio â'r grŵp hwn.

Mae'r Cyngor hefyd am nodi ei fod yn ymwybodol o (o leiaf) un e-ddeiseb sydd wedi'i chylchredeg yn eang ar gyfryngau cymdeithasol, gan wrthwynebu'r cynigion. Ar yr adeg y daeth y cyfnod ymgynghori i ben (26 Gorffennaf 2020), nid oedd unrhyw e-ddeiseb wedi'i chyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried. Felly, ni ellir cynnwys unrhyw e-ddeiseb o'r fath, os bwriedir ei chyflwyno i'r Cyngor yn y pen draw, yn yr adroddiad data ymgynghori hwn.

Felly, mater i'r Grwpiau Ardal Aelodau (MAG) unigol a / neu'r Aelod Arweiniol dros Wastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd fydd ystyried cynnwys unrhyw e-ddeiseb o'r fath ar wahân pe bai un yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor cyn i unrhyw drafodaethau neu benderfyniadau gael eu gwneud mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer canol tref Dinbych.

## Yr Iaith Gymraeg

Derbyniwyd sylwadau fesul iaith fel a ganlyn:

- Gwnaed 13 o sylwadau yn Gymraeg
- Gwnaed 898 o sylwadau yn Saesneg

## Data arolwg rhagarweiniol 'Adfer Canol y Dref'

Ar 21 Mehefin 2020, lansiodd y Cyngor arolwg ar gyfer busnesau ac arolwg ar gyfer ymwelwyr yng nghanol trefi, gan fwriadu dal 'ciplun' o brofiadau pobl yn Rhuthun ac i dynnu sylw at unrhyw bryderon ynghylch dychwelyd i ganol trefi ar ôl cyfnod estynedig 'dan glo'.

Mae'r arolygon yn parhau ac mae'r cyngor yn bwriadu parhau i gasglu'r data hwn gan fod ffyrdd newydd o fynychu trefi (megis cadw pellter cymdeithasol) yn debygol o gael effaith ar y tymor twristiaeth, yn ogystal ag yn y gaeaf pan fydd ffactorau allanol fel tywydd garw o bosibl yn cael mwy o effaith. Adroddir ar yr arolygon hyn ar wahân bob chwarter (bob 12 wythnos o ddechrau'r arolwg) hyd nes y rhoddir rhybudd pellach.

Roedd rhywfaint o ddata ymateb a ddarparwyd ar gyfer yr arolwg 'Adfer Canol y Dref' yn amlwg i gael ei gynnwys (yn ôl sylwadau'r ymatebwyr) yn yr ymgynghoriadau Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19.

Derbyniodd Dinbych 44 o'r sylwadau hyn, a bydd y sylw hwn yn cael ei gynnwys yn y crynodeb ymgynghori yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

## Adborth o'r cam ymgynghori

Rhedodd yr ymgynghoriad ar gyfer yr Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19 ar gyfer Dinbych rhwng 9 Gorffennaf 2020 a 26 Gorffennaf 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau ar-lein ar Borth Sgwrs y Sir y Cyngor oherwydd pandemig parhaus Covid-19. Yn ogystal â sylw yn y wasg leol, hyrwyddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ei hun, ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac mewn rhai grwpiau Facebook cymunedol lleol nad ydynt yn cael eu rhedeg gan y Cyngor.

### Dadansoddeg o'r Cyfryngau Cymdeithasol a Phorth Sgwrs y Sir

Rhwng 9 Gorffennaf a 26 Gorffennaf, roedd cyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol y Cyngor (faint o weithiau y gwelwyd post) mewn perthynas â'r ymgynghoriadau fel a ganlyn:

Post Facebook Saesneg: wedi cyrraedd cyfanswm o 6,535

Post Twitter Saesneg: wedi cyrraedd cyfanswm o 4,465

Post Cymraeg ar Facebook: wedi cyrraedd cyfanswm o 127

Post Twitter Cymraeg: wedi cyrraedd cyfanswm o 110

**Cyfanswm ar draws yr holl gyfryngau cymdeithasol:** wedi cyrraedd cyfanswm o 11,237

Defnyddir Google Analytics i olrhain ymweliadau â Phorth Sgwrs y Sir, ac mae'n dangos bod oddeutu **4,800 o ddefnyddwyr unigol** wedi ymweld â Phorth Sgwrs y Sir yn ystod y cyfnod ymgynghori dros **6,900 o sesiynau** (gan awgrymu bod nifer o ddefnyddwyr wedi ymweld â'r safle fwy nag unwaith yn y cyfnod hwn). Yr amser cyfartalog a dreuliwyd ar y Porth fesul sesiwn oedd 4 munud a 36 eiliad.

Mae hyn oddeutu 4x y nifer cyfartalog o ymweliadau bob mis (yn seiliedig ar gyfartaledd o 1,100 o ymweliadau bob mis rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2020).

Lawrlwythodd ymwelwyr â Phorth Sgwrs y Sir ddogfennau cynnig Dinbych gyfanswm o 240 gwaith, a derbyniwyd 858 o ymatebion i gyd yn benodol i'r ymgynghoriad.

Mae'r Cyngor yn deall y gallai cyswllt uniongyrchol â'r arolwg yn unig fod wedi'i gylchredeg yn eang ar fforymau cyfryngau cymdeithasol lleol, gan gyfrif am y nifer uwch o bobl sy'n ymateb i'r cynigion yn hytrach na'u cyrchu. Roedd gan y tri ymgynghoriad *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19* arall nifer uwch o bobl yn cyrchu'r cynigion nag ymateb iddynt (sef profiad arferol y Cyngor ar gyfer ymgynghoriadau neu weithgareddau ymgysylltu tebyg.

## Adborth cynrychiolwyr etholedig a phartneriaid/ rhanddeiliaid

Cyflwynodd **Cyngor Tref Dinbych** e-bost i Gyngor Sir Dinbych dyddiedig 16 Gorffennaf 2020. Dywedodd y Cyngor Tref eu bod wedi cynnal cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2020 ac wedi cynnal pleidlais ar a ddylid cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Dywedodd y Cyngor Tref fod y bleidlais yn mynd o blaid cefnogi cynigion 5: 3 gydag un person wedi ymatal.

Mae copi o e-bost y Cyngor Tref ar gael yn atodiadau'r adroddiad hwn. Efallai y bydd mwy o wybodaeth am gyfarfod y Cyngor Tref ar gael trwy gysylltu â'r Cyngor Tref yn uniongyrchol.

Anfonodd **Dr James Davies Aelod Seneddol** e-bost dyddiedig 23 Gorffennaf 2020, i fynegi ei fod wedi derbyn sylwadau gan drigolion a busnesau a'i fod yn gyffredinol **yn erbyn** y cynigion. Mae ymateb yr AS wedi’i gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Anfonodd **Ann Jones, Aelod o Senedd Cymru**, e-bost dyddiedig 22 Gorffennaf 2020, i fynegi ei bod wedi derbyn sylwadau gan breswylwyr a busnesau a'i bod yn gyffredinol **yn erbyn** y cynigion. Mae ymateb yr Aelod o Senedd Cymru wedi'i gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Data meintiol arolwg ymateb ar-lein

Ar y cyfan, derbyniodd y Cyngor 858 o ymatebion i arolygon ar-lein ar y Porth Sgwrs y Sir mewn ymateb uniongyrchol i'r ymgynghoriad hwn, a 44 sylw ychwanegol ar brosiect Adfer Canol y Dref ar wahân, a oedd hefyd yn cael ei gynnal ar Borth Sgwrs y Sir ar yr un pryd â’r ymgynghoriad *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19.*

O ran yr arolwg ymateb i’r ymgynghoriad yn benodol, ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn. Mae'r cwestiynau a chrynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn parhau ar dudalen nesaf yr adroddiad hwn.

## Ynglŷn â'r cynigion

Gofynnodd yr adran hon o'r arolwg ar-lein i ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ystod o ddatganiadau mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Dinbych.

1. **Bydd y cynnig i ehangu palmentydd yn gwneud cadw pellter cymdeithasol yn haws**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 825 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 111 | 13.45% |
| Cytuno ychydig | 153 | 18.55% |
| Anghytuno ychydig | 194 | 23.52% |
| Anghytuno'n gryf | 356 | 43.15% |
| Dim barn | 11 | 1.33% |

2. **Bydd y cynnig i greu llwybrau cerddwyr / beiciau a rennir yn cynyddu nifer y bobl sy'n dewis cerdded neu feicio o amgylch y dref**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 809 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 116 | 14.34% |
| Cytuno ychydig | 116 | 14.34% |
| Anghytuno ychydig | 181 | 22.37% |
| Anghytuno'n gryf | 385 | 47.59% |
| Dim barn | 11 | 1.36% |

3. **Bydd y cynnig i gefnogi caffis, tafarndai a bwytai i gyflwyno seddi y tu allan yn gwneud canol y dref yn fwy croesawgar**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 812 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 181 | 22.29% |
| Cytuno ychydig | 185 | 22.78% |
| Anghytuno ychydig | 170 | 20.94% |
| Anghytuno'n gryf | 255 | 31.4% |
| Dim barn | 21 | 2.59% |

4. **Bydd adleoli Marchnad Dinbych i'r Stryd Fawr yn gwneud i ganol y dref deimlo'n fwy croesawgar**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 805 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 162 | 20.12% |
| Cytuno ychydig | 162 | 20.12% |
| Anghytuno ychydig | 195 | 24.22% |
| Anghytuno'n gryf | 257 | 31.93% |
| Dim barn | 29 | 3.6% |

5. **Mae'n dderbyniol cyflwyno system unffordd dros dro i alluogi'r newidiadau hyn**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 803 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 81 | 10.09% |
| Cytuno ychydig | 59 | 7.35% |
| Anghytuno ychydig | 117 | 14.57% |
| Anghytuno'n gryf | 521 | 64.88% |
| Dim barn | 25 | 3.11% |

Ar y cyfan, ymddengys bod ymatebwyr i raddau helaeth **yn erbyn** y newidiadau arfaethedig ar gyfer Dinbych, gyda 79.45% o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y cynigion yn ffordd dderbyniol o hyrwyddo teithio llesol ac i sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.

Ymddengys nad oes llawer o gefnogaeth i hyrwyddo diwylliant caffi (45.07% o ymatebwyr) yn y dref ac o bosibl adleoli'r Farchnad (40.24% o ymatebwyr) i'r Stryd Fawr.

### Rhesymau dros ymweld â Chanol Tref Dinbych

Gofynnodd yr adran hon i ymatebwyr feddwl pa resymau a roddir yn gyffredinol am ymweld â chanol tref fel Dinbych oedd y pwysicaf iddynt.

1. **Mynd i'r gwaith (megis mewn siop, bwyty neu gaffi)**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 730 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 221 | 30.27% |
| Ychydig yn bwysig | 113 | 15.48% |
| Ddim yn bwysig iawn | 76 | 10.41% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 76 | 10.41% |
| Ddim yn berthnasol | 244 | 33.42% |

2. **Prynu nwyddau / gwasanaethau hanfodol fel bwyd neu gyflenwadau meddygol**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 780 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 564 | 72.31% |
| Ychydig yn bwysig | 176 | 22.56% |
| Ddim yn bwysig iawn | 32 | 4.1% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 4 | 0.51% |
| Ddim yn berthnasol | 4 | 0.51% |

3. **Prynu nwyddau / gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol fel dillad, eitemau hobi / diddordeb**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 749 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 235 | 31.38% |
| Ychydig yn bwysig | 304 | 40.59% |
| Ddim yn bwysig iawn | 135 | 18.02% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 55 | 7.34% |
| Ddim yn berthnasol | 20 | 2.67% |

4. **Bwyta allan neu gymdeithasu**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 757 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 227 | 29.99% |
| Ychydig yn bwysig | 299 | 39.5% |
| Ddim yn bwysig iawn | 152 | 20.08% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 59 | 7.79% |
| Ddim yn berthnasol | 20 | 2.64% |

5. **Treulio amser gyda ffrindiau neu deulu**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 749 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 337 | 44.99% |
| Ychydig yn bwysig | 216 | 28.84% |
| Ddim yn bwysig iawn | 101 | 13.48% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 54 | 7.21% |
| Ddim yn berthnasol | 41 | 5.47% |

6. **Treulio amser yn yr awyr agored**

   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 741 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 310 | 41.84% |
| Ychydig yn bwysig | 240 | 32.39% |
| Ddim yn bwysig iawn | 95 | 12.82% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 57 | 7.69% |
| Ddim yn berthnasol | 39 | 5.26% |

Mae'r data ymateb o'r adran hon yn awgrymu mai ymweld â'r dref i gynnal gweithgareddau siopa hanfodol yw'r rheswm pwysicaf o bell ffordd i ymatebwyr lleol ymweld â chanol tref Dinbych, gyda 72.31% o'r ymatebwyr yn dweud bod hyn yn 'bwysig iawn' iddynt. Y gweithgaredd pwysicaf nesaf oedd gallu treulio amser gyda ffrindiau a theulu, gyda 44.99% o'r ymatebwyr yn dweud bod hyn yn 'bwysig iawn' iddyn nhw.

***Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf***

## Sut mae ymatebwyr yn teithio i ac yn cyrraedd canol y dref

Gofynnodd yr adran hon i ymatebwyr benderfynu sut yr oeddent yn teithio fwyaf i ganol tref Dinbych neu'n cael mynediad iddi, ac a fyddai'r mesurau *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19* arfaethedig yn newid hyn o gwbl.

1. **Gan feddwl sut rydych chi'n cyrraedd canol y dref, pa un o'r datganiadau canlynol sy'n berthnasol i chi?**
   **Os ydych chi'n amrywio sut rydych chi'n teithio, dewiswch yr opsiwn sydd fwyaf perthnasol i chi yn eich barn chi.**
   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 790 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Fel arfer, rydw i'n cerdded i ganol y dref | 213 | 26.96% |
| Fel arfer, rydw i'n beicio i ganol y dref | 10 | 1.27% |
| Fel arfer, rydw i'n gyrru ac yn ceisio parcio ar Stryd y Dyffryn neu'r Stryd Fawr | 236 | 29.87% |
| Fel arfer, rydw i'n gyrru ac yn defnyddio maes parcio cyfagos | 311 | 39.37% |
| Fel arfer, rydw i'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus | 20 | 2.53% |

2. **Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar hyn?**
   Atebwyd y cwestiwn hwn gan 778 o ymatebwyr.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr (i'r % gyfan agosaf) |
|---|---|---|
| Ydw | 516 | 66.32% |
| Nac ydw | 262 | 33.68% |

Mae'r data ymateb yn dangos bod yn well gan bobl allu gyrru i ganol tref Dinbych, hyd yn oed ar gyfer teithiau lleol, gyda 69.24% o'r ymatebwyr yn well ganddynt yrru a naill ai parcio ar Stryd y Dyffryn / Stryd Fawr neu chwilio am faes parcio cyfagos.

Er mwyn deall y mathau o deithiau sy'n cael eu gwneud, cafodd data'r atebion a ddarparwyd gan ymatebwyr a ddarparodd eu cyfeiriadau hefyd eu mewnbynnu i Google MyMap pwrpasol.

Mae Google MyMap yn cynnwys data gan 289 o ymatebwyr. O'r rhain, dywedodd 66.43% o'r ymatebwyr fod yn well ganddyn nhw yrru i ganol y dref.

O'r rhai a oedd yn well ganddynt yrru, roedd 14.58% o'r ymatebwyr yn gwneud siwrneiau llai na 500 metr (sy'n cyfateb i daith gerdded 15 munud ar gyflymder o 2kmph), ac roedd 17.70% arall o'r ymatebwyr yn gwneud siwrneiau o lai nag 1 cilomedr (sy'n cyfateb i daith gerdded 30 munud ar gyflymder o 2kmph). Mae hyn yn golygu bod 32.28% o deithiau, neu oddeutu un o bob tair a wneir mewn car i ganol tref Dinbych, o lai nag 1 cilomedr i ffwrdd o'r Stryd Fawr.

O'r rhai a oedd yn well ganddynt gerdded, roedd 18.6% o'r ymatebwyr yn cerdded am fwy nag 1km (neu'n fwy na hanner awr, gan dybio cyflymder cerdded o 2km).

Mae llun o'r Google MyMap, wedi'i ganoli o amgylch Stryd Fawr Dinbych, isod:




*ALLWEDD:*
*Pinnau coch - ymatebwyr sy'n gyrru ac yn parcio ar y Stryd Fawr / Stryd y Dyffryn (cyfanswm o 96)*
*Pinnau melyn - ymatebwyr sy'n gyrru ac yn parcio mewn maes parcio (cyfanswm o 96)*
*Pinnau gwyrdd - ymatebwyr sy'n cerdded (cyfanswm o 86)*
*Pinnau glas - ymatebwyr sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus (cyfanswm o 8)*
*Pinnau porffor - ymatebwyr sy'n beicio (cyfanswm o 3)*

***Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf***

Gellir gweld y map Google yma trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

Dolen gyswllt i Google MyMap yn dangos y dulliau a ffafrir gan ymatebwyr i deithio i Ganol Tref Dinbych

## Sylwadau ar y cynigion

Yn ogystal â gallu rhoi sylwadau amlddewis ar yr arolwg ymgynghori, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr ddarparu sylwadau yn egluro'r rhesymau dros eu barn.

Wrth egluro eu barn gyffredinol ar y cynigion, roedd yr ymatebwyr yn gallu gadael sylwadau. Dewisodd cyfanswm o 675 o ymatebwyr adael sylw ar y rhan gyntaf hon o'r arolwg ymgynghori, yn ogystal â 44 o ymatebwyr a adawodd sylwadau ar brosiect Adfer Canol y Dre ar wahân y Cyngor, sydd wedi eu cynnwys yn yr adran hon i'w dadansoddi. Mynegodd sawl sylw farn ar fwy nag un mater. Mae'r sylwadau wedi'u rhannu a'u crynhoi fel datganiadau cadarnhaol neu negyddol ar y dudalen nesaf.

Mae'r Cyngor yn parchu hawliau pawb i'w barn eu hunain, p'un a yw'r rhain yn gadarnhaol neu'n negyddol, fodd bynnag, mae'r Cyngor am nodi bod ganddo bolisi 'dim goddefgarwch' ar y mathau canlynol o sylwadau fel rhan o'i Safonau Gwasanaeth Cwsmer:

- Cam-drin sydd wedi'i gyfeirio at unigolion neu sefydliadau
- Sylwadau sy'n ddifrïol neu'n enllibus mewn perthynas ag unigolion sy'n gysylltiedig (neu y credir eu bod yn gysylltiedig) â'r cynigion
- Sylwadau sy'n cynnwys iaith anweddus.

Cafodd 14 allan o'r 719 sylw a gafodd eu gadael eu tynnu allan rhag cael eu hystyried gan y Cyngor oherwydd eu bod yn torri'r 'polisi dim goddefgarwch' mewn un o'r ffyrdd a restrwyd uchod. Bydd yr elfen 'amlddewis' o sylwadau'r ymatebwyr hyn yn dal i gael ei chynnwys lle bo'n berthnasol.

***Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf***

Mynegwyd sylwadau cadarnhaol o blaid y cynigion fel a ganlyn:

| Thema sylwadau cadarnhaol | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Ar y cyfan yn gefnogol o'r cynigion | 47 |
| Yn gefnogol i 'ddiwylliant caffi' yng nghanol y dref | 22 |
| Yn gefnogol i'r cynnig i hyrwyddo ac annog teithio llesol | 21 |
| Yn gefnogol i'r cynnig i adleoli'r farchnad i'r Stryd Fawr | 15 |
| Yn gefnogol i'r cynnig i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya ar hyd Stryd y Parc, Rhiw'r Bigwn a Lôn Goch | 12 |
| Yn gefnogol i elfen system unffordd o'r cynnig | 6 |
| Yn gefnogol i ostyngiad mewn llygredd ar Stryd y Dyffryn / Stryd Fawr | 6 |
| Yn gefnogol i fesurau i leihau dibyniaeth ar geir i deithio o amgylch Dinbych | 6 |
| Yn cefnogi cynigion i hyrwyddo cadw pellter cymdeithasol | 4 |
| Yn gefnogol i flaenoriaethu cerddwyr dros gerbydau mewn rhai ardaloedd | 3 |
| Yn gefnogol i "lasu" y dref (e.e. potiau planhigion / coed) | 2 |
| Yn cefnogi gostyngiad mewn traffig i Stryd y Dyffryn | 2 |

Manteisiodd nifer o ymatebwyr, p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynllun, ar y cyfle i wneud awgrymiadau cadarnhaol (yn gyffredinol) ar gyfer dulliau amgen i gynorthwyo i hyrwyddo cludiant cynaliadwy lleol neu gynorthwyo i adfer Canol Tref Dinbych. Crynhoir yr awgrymiadau hyn fel a ganlyn:

| Awgrym | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Cyflwyno system unffordd ar y palmentydd fel dewis arall yn lle system unffordd ar y ffordd (ffyrdd) | 42 |
| Edrych ar lwybrau teithio llesol mewn ardaloedd eraill, er enghraifft Dinbych/ Henllan, Dinbych/ Rhewl, Dinbych/ Llanelwy | 27 |
| Lleihau neu wneud parcio am ddim yng nghanol y dref | 22 |
| Cyflwyno cylchfan neu welliannau cyffordd eraill ym mharc manwerthu Ffordd yr Orsaf (ardal Aldi) | 14 |
| Cau/ pedestreiddio y Stryd Fawr ar Ddiwrnod y Farchnad yn unig | 8 |
| Adleoli neu symud yr arosfannau bysiau ar ben y Stryd Fawr | 6 |
| Cyflwyno mesurau tawelu traffig ar lwybrau preswyl | 6 |
| Adleoli'r Farchnad i Rhes Gefn, neu un o'r meysydd parcio fel Lôn y Goron neu Ward y Ffatri | 5 |
| Cael y system unffordd yn rhedeg i lawr yr allt ar Stryd y Dyffryn yn hytrach nag i fyny | 3 |
| Creu croesfannau cerddwyr ychwanegol ar Stryd y Dyffryn | 1 |
| Gosod y system unffordd, ond i greu cilfachau parcio ychwanegol yn hytrach nag ehangu'r palmentydd | 1 |
| Gwneud y palmentydd yn gulach i greu cilfachau parcio ychwanegol | 1 |

***Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf***

Derbyniwyd nifer o sylwadau yn erbyn y cynigion fel a ganlyn:

| Thema sylwadau negyddol | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Yn gyffredinol yn erbyn y cynigion | 244 |
| Pryderon ynghylch nifer y traffig ar lwybrau amgen 'i lawr' (Stryd y Parc, Rhiw'r Bigwn a Lôn Goch) | 154 |
| Pryder ynghylch lled ffyrdd ar lwybrau amgen 'i lawr' | 103 |
| Pryderon ynghylch diogelwch preswylwyr ar lwybrau amgen 'i lawr' a llwybrau 'torri trwodd' / 'cyflym' | 71 |
| Pryderon y gallai'r cynigion arwain at gynnydd mewn gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ar gyffyrdd neu gynnydd mewn goryrru ar ffyrdd unffordd | 52 |
| Pryderon ynghylch yr effaith ar amseroedd ymateb y gwasanaeth brys neu wasanaethau trefol (e.e. casgliadau sbwriel) | 48 |
| Pryderon ynghylch mynediad i ganol y dref i siopwyr anabl, oedrannus neu sydd fel arall yn ddibynnol ar geir | 34 |
| Pryderon ynghylch colli parcio ar y stryd | 32 |
| Pryderon ynghylch mynediad i fusnesau a materion o ran llwytho/ dadlwytho danfoniadau | 26 |
| Pryderon ynghylch bod y 'diwylliant caffi' yn flêr / anniben neu'n wrthgymdeithasol | 19 |
| Pryderon ynghylch yr effaith ar fynediad i'r dref ar gludiant cyhoeddus | 14 |
| Pryderon ynghylch llygredd aer ar lwybrau amgen 'i lawr' | 14 |
| Pryderon ynghylch llygredd sŵn ar lwybrau amgen 'i lawr' | 10 |
| Pryderon y bydd cynigion yn gwneud mynediad yn anodd i draffig trwodd o Fryniau Clwyd (Groes / Bylchau ac ati) ac o Henllan | 10 |
| Pryderon y bydd cynigion yn cynyddu rhai amseroedd teithio mewn car | 5 |
| Ddim yn hoffi'r syniad o hyrwyddo teithio llesol | 2 |

***Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf***

Wrth egluro eu rhesymau dros ymweld â chanol tref Dinbych, dewisodd 294 o ymatebwyr adael sylw. Rhoddodd rhai ymatebwyr fwy nag un rheswm pam eu bod yn ymweld â chanol y dref. Crynhoir eu rhesymau isod:

| Rheswm (rhesymau) dros ymweld | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Ymweld â siopau neu wasanaethau eraill e.e. siopau trin gwallt | 98 |
| Ni roddwyd rheswm clir, sylwadau negyddol ychwanegol yn erbyn y cynllun arfaethedig nac am gynllun / cynnig cyfredol siopau / gwasanaethau yng nghanol tref Dinbych | 82 |
| Ymweld i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd e.e. meddyg / deintydd / fferyllfa | 43 |
| Ymweld â Swyddfa'r Post neu'r banc | 33 |
| Ymweld â'r Llyfrgell a Siop Un Stop | 32 |
| Cymdeithasu (cyfarfod â theulu / ffrindiau) | 26 |
| Gweithio neu wirfoddoli yng nghanol y dref | 23 |
| Ymweld â thafarndai / caffis / bwytai / siopau tecawê | 23 |
| Preswylydd yng nghanol y dref | 23 |
| Dim rheswm clir wedi'i roi, sylwadau cadarnhaol ychwanegol o blaid y cynllun arfaethedig neu am gynllun / cynnig cyfredol siopau / gwasanaethau yng nghanol tref Dinbych | 15 |
| Mae cilfachau parcio am ddim ar gael ar Stryd y Dyffryn / Stryd Fawr | 12 |
| Ar gyfer ymarfer corff / i gerdded y ci | 11 |
| Mae Dinbych yn lle braf i dreulio amser / tref hanesyddol / ddel | 11 |
| I ymweld â'r Castell | 6 |
| Defnyddio Dinbych fel llwybr drwodd i rywle arall | 5 |
| I fynychu digwyddiadau (e.e. Dydd San Steffan, Gŵyl Eirin, Carnifal) | 2 |

**NODYN**: tynnwyd cyfanswm o 1 sylw o'r adran hon oherwydd ei fod yn torri polisi dim goddefgarwch y Cyngor ar gam-drin (gweler yr esboniad blaenorol)

Roedd 31 sylw yn yr adran hon hefyd yn ymwneud â sut roedd ymatebwyr yn cyrraedd canol y dref. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf, a oedd yn gofyn i ymatebwyr a fyddai'r cynigion yn effeithio ar eu mynediad i'r dref.

***Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf***

Wrth egluro a oeddent yn teimlo y byddai'r cynigion ar gyfer Dinbych yn effeithio ar y ffordd yr oeddent yn teithio i / o amgylch canol y dref, dewisodd 343 o ymatebwyr adael sylw.

Rhoddodd rhai ymatebwyr sylwadau am fwy na un mater. Mae'r rhain wedi cael eu grwpio â'u crynhoi isod:

| Effaith ar fynediad | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Ni fuasent yn ymweld â chanol y dref pe bai newidiadau'n mynd yn eu blaen (ni ddarperir rheswm ychwanegol) | 87 |
| Yn gyffredinol, buasent yn gweld newidiadau yn anghyfleus | 48 |
| Sylwadau negyddol cyffredinol am y cynigion ar gyfer Dinbych | 46 |
| Byddai parcio yn anoddach | 41 |
| Byddai'r cynigion yn arwain at amseroedd teithio hirach | 41 |
| Byddai'n teimlo'n llai diogel yn y dref pe bai'r newidiadau arfaethedig yn mynd yn eu blaenau | 30 |
| Methu parcio yn unrhyw le heblaw (neu fynegi hoffter cryf iawn o barcio ar) Stryd y Dyffryn / Stryd Fawr / Lôn Pendref | 27 |
| Yn teimlo y byddai mynediad i bobl anabl / oedrannus / â symudedd cyfyngedig yn waeth o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig | 25 |
| Byddai'n hoffi parcio am ddim neu barcio rhatach | 25 |
| Pryderon y byddai newidiadau arfaethedig yn gwneud mynediad i gerddwyr yn llai diogel ar lwybrau preswyl (e.e. Ffynnon Barcer, Stryd y Parc, Lôn Goch) | 23 |
| Hoffai weld cynnydd yn yr argaeledd parcio ar y stryd yn Stryd y Dyffryn/ Stryd Fawr | 22 |
| Ni fyddai'n hoffi colli'r gallu i yrru mewn 'cylch' (naill ai y tu ôl i Lyfrgell Dinbych ac yn ôl i Bwll y Grawys, neu i fyny Lôn Pendref ac yn ôl i lawr Ffordd y Ffair) i chwilio am barcio ar y stryd yn y Stryd Fawr a Lôn Pendref | 18 |
| Dim effaith ar fynediad | 18 |
| Byddai'n cerdded neu'n beicio yn amlach | 15 |
| Hoffai weld seilwaith teithio llesol ychwanegol rhwng Dinbych a phentrefi pellennig (e.e. Henllan, Rhewl) | 9 |
| Byddai'n gyrru mwy gan y byddai'n teimlo'n llai diogel i gerdded | 9 |
| Pryder ynghylch effaith negyddol ar fusnesau e.e. llwytho / dadlwytho, tagfeydd | 8 |
| Sylwadau cadarnhaol ychwanegol o blaid cynigion | 7 |
| Sylwadau ychwanegol i gefnogi amcanion teithio llesol | 5 |
| Teimlo y byddai'n rhaid iddyn nhw symud allan o'r ardal unffordd arfaethedig/ allan o Ddinbych pe bai'r newidiadau'n mynd rhagddynt | 4 |
| Yn poeni am effaith negyddol ar lwybrau cludiant cyhoeddus | 3 |
| Hoffai i arosfannau bysiau'r Stryd Fawr gael eu symud i greu parcio ychwanegol ar y stryd | 2 |
| Pryderon ynghylch costau teithio uwch | 1 |

**NODYN**: tynnwyd cyfanswm o 8 sylw o'r adran hon oherwydd ei fod yn torri polisi dim goddefgarwch y Cyngor ar gam-drin (gweler yr esboniad blaenorol)

***Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf***

Fel y gwelir yn y ffaith bod dros 2 o bob 3 siwrnai a wneir i ganol tref Dinbych yn cael eu gwneud gyda char, mae parcio yn fater pwysig ymhlith ymatebwyr. Cafodd parcio 135 o grybwylliadau penodol yn sylwadau'r ymatebwyr ar gyfer yr adran hon, gyda phryderon eraill ynghylch mynediad sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â pharcio (megis mynediad i'r henoed / anabl neu ymwelwyr â llai o symudedd yng nghanol y dref) yn parhau i fod yn thema bwysig trwy gydol sylwadau'r ymatebwyr.

## Crynodeb o'r ymateb

Ar y cyfan, gellir ystyried fod ymatebwyr Dinbych yn gyffredinol yn erbyn y cynigion neu ffurf ohonynt wedi'u haddasu, gydag 79.45% o'r ymatebwyr yn yr arolwg ymgynghori naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y byddai cyflwyno system unffordd dros dro i hwyluso ehangu palmant ar Stryd y Dyffryn/ Stryd Fawr yn newid dros dro derbyniol i'r dref.

Mae'r prif resymau a roddwyd dros y gwrthwynebiadau hyn gan ymatebwyr yn cynnwys addasrwydd llwybrau amgen i ymdopi â maint a math y traffig i lawr yr allt sy'n cael ei amsugno ar hyn o bryd gan Stryd Fawr Dinbych, a phryderon ynghylch yr effaith ar allu 'picio a siopa' - yn enwedig ymhlith ymatebwyr sy'n well ganddynt yrru i mewn. Mynegwyd pryderon ynghylch llwybrau cyflym ar ffyrdd ochr llai ar yr oriau brig, ynghyd â phryderon am effaith bosibl y cynllun ar amseroedd ymateb y gwasanaethau brys.

O ran dymuniad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo pellter cymdeithasol, ni chodwyd hyn gan lawer o ymatebwyr, a chyfeiriodd nifer o ymatebwyr fod Dinbych yn 'rhy dawel' i hyn fod yn broblem.

Mewn perthynas â galluogi creu lleoedd diogel 'y tu allan' trwy gyflwyno elfen o 'ddiwylliant caffi' i'r dref neu drwy adleoli'r farchnad, mae'n ymddangos bod rhywfaint o awydd am hyn, gydag ychydig dros 40-45% o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y gallai hyn fod yn syniad da (o'i gymharu â 55-60% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno, a 0-5% nad oedd ganddynt farn).

O ran dymuniad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo teithio llesol mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae archwaeth fach iawn (tua 3% o sylwadau ymatebwyr) am deithio llesol yn/o amgylch Dinbych, ond ar sail sylwadau'r ymatebwyr ymddengys byddai hyn i raddau helaeth yn ymwneud  ag awydd am seilwaith teithio llesol rhwng Dinbych a phentrefi pellennig fel Henllan a Rhewl, yn hytrach nag yng nghanol tref Dinbych ei hun.

O'r ymatebwyr sy'n byw yn Ninbych, mae'n ymddangos bod yn well ganddynt ddefnyddio car (neu gerbyd modur personol tebyg) fel ffordd o fynd o gwmpas, gyda dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn nodi bod yn well ganddyn nhw yrru i ganol y dref. Cyfeiriodd nifer o sylwadau at awydd i gynyddu isadeiledd parcio yn hytrach na’i leihau mewn ymateb i bandemig parhaus Covid-19 ac i gynyddu proffil Dinbych fel tref ‘picio a siopa’.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Sylwadau Cyngor Tref Dinbych

**From:** Jenny <townclerk@denbightowncouncil.gov.uk>
**Sent:** 16 July 2020 09:52
**To:** Ben Wilcox-Jones <Ben.Wilcox-Jones@denbighshire.gov.uk>
**Subject:** RE: Denbigh Covid-19 Sustainable Transport grant schemes

Good morning Ben,

Following on from last night's meeting, I can confirm that the vote went in favour of the transport scheme 5:3 with one abstaining.

The town councillors requested a copy of the results of the consultation once the consultation period has come to an end.

Concerns were raised regarding the proposed new location of the bus stop on Station Road by the theatre, needs to be at a safer location.

The town councillors may respond to the consultation personally.

If you require any further details, please let me know.

Kind regards Jenny

Jenny Barlow
Clerc y Dref a Swyddog Cyllid / Town Clerk and Finance Officer
Cyngor Tref Dinbych / Denbigh Town Council
Neuadd y Dref, Lon Crown, DINBYCH, Sir Ddinbych
Town Hall, Crown Lane, DENBIGH, Denbighshire
LL16 3TB
Tel: 01745 815984
e-mail: townclerk@denbightowncouncil.gov.uk.
www.denbightowncouncil.gov.uk.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr e-bost hwn ac unrhyw ffeiliau a drosglwyddir gydag o wedi eu bwriadu yn unig ar gyfer pwy bynnag y cyfeirir ef ato neu atynt. Os ydych wedi derbyn yr e-bost hwn drwy gamgymeriad, hysbyswch yr anfonwr ar unwaith os gwelwch yn dda.
Mae cynnwys yr e-bost yn cynrychioli barn yr unigolyn(ion) a enwir uchod ac nid yw o angenrheidrwydd yn cynrychioli barn Cyngor Tref Dinbych. Serch hynny, fel Corff Cyhoeddus, efallai y bydd angen i Gyngor Tref Dinbych ddatgelu'r e-bost hwn [neu unrhyw ymateb iddo] dan ddarpariaethau deddfwriaethol.
The information contained in this e-mail message and any files transmitted with it is intended solely for the use of the individual or entity to whom they are addressed. If you have received this e-mail in error please notify the sender immediately.
The contents of this e-mail represents the views of the individual(s) named above and do not necessarily represent the views of Denbigh Town Council. However, as a Public Body, Denbigh Town Council may be required to disclose this e-mail [or any response to it] under legislative provisions.

# Atodiad 2 – Sylwadau Dr James Davies, Aelod Seneddol (AS)

**Dr James Davies MP**
Member of Parliament for Vale of Clwyd/ Dyffryn Clwyd
House of Commons, London SW1A 0AA
Tel: 020 7219 4606
Email: james.davies.mp@parliament.uk

Judith Greenhalgh
Chief Executive
Denbighshire County Council
County Hall
Ruthin
LL15 1YN

23rd July 2020

Dear Judith,

**Local Sustainable Transport response to Covid-19 - Denbigh**

I am writing in strong opposition to the proposed "temporary" highway adaptations to Denbigh town centre, as detailed in the 'Local Sustainable Transport response to Covid-19' document. My understanding is that one-way arrangements and temporary bollards would be in place for a trial period of up to 18 months, with a possibility of the alterations becoming permanent beyond this. It is unclear how funding would be obtained to provide a suitably high-quality permanent scheme if the changes were to be retained.

Firstly, I am disappointed by the relatively short period of consultation, only available online, for residents and businesses, for a proposal that would hugely alter traffic management throughout the town centre and a number of neighbouring residential streets. It appears that little effort has been made to ensure those who may be most affected are aware of the proposals. I have received a number of emails from residents living on the affected streets who did not know about the proposals until they had received correspondence from me.

I am aware of an online petition which has been signed by over 1,000 people against the plans, and whilst I am aware it would be common practise for council to consider the petition as a single objection, I would appeal to you to acknowledge each individual signature and the strength of feeling generated by the proposals.

The vast majority of the scores of individuals who have contacted me on this matter are fervently against the proposals, which I feel are a short-sighted and hasty response to Welsh Government funding clearly aimed at larger, flat city centres rather than small, more rural towns such as Denbigh. I am opposed to public money being used simply because it is available rather than for the benefit of the local area, and this is a view that has been echoed by many.

I would strongly encourage the reassessment of the proposals from an economic perspective. I feel the current plans would be damaging to businesses, at a time when they have already faced more than enough challenges. It is well known that shoppers are more commonly attracted to retail offers that are easily accessible, where they can park nearby at low cost. These proposals would reduce the available on-street parking and reduce accessibility. The topography of Denbigh may also discourage shoppers from using businesses if they are unable to easily park nearby.

**Constituency Office:**
198 High Street, Prestatyn, Denbighshire, LL19 9BP
01745 888920
Website: www.jamesdaviesmp.co.uk

**Dr James Davies MP**
Member of Parliament for Vale of Clwyd/ Dyffryn Clwyd
House of Commons, London SW1A 0AA
Tel: 020 7219 4606
Email: james.davies.mp@parliament.uk

From an equality point of view, I am also extremely concerned that the reduction of on street parking does not take into account those who have reduced mobility. The new layout and increased street furniture will do little to support those partially sighted, the disabled, and parents with young children. There will also be a reduction in available bus stops, potentially increasing the reliance on cars and restricting access for those dependent on public transport.

Early data from the council's "Town Centre Recovery Survey" appears to illustrate little appetite for the introduction of the proposed measures. I note that '78% of local business respondents and 80% of local residents said they were either satisfied or very satisfied with how safe their town centre feels'. It is stated that 'nearly half of respondents who left a comment expressed concerns about the width of pavements and over 60% expressed concerns about social distancing'. I would ask for the number of respondents who have expressed these concerns to be published.

The council's data also suggests '80% of residents said they were visiting town centres to carry out essential tasks only, and 65% of businesses said they felt quieter than usual'. I would suggest this conclusion is skewed, as the date the survey was launched was prior to non-essential shops being able to reopen, when people were still being encouraged to stay within a 5-mile radius and only carry out essential journeys. Many high street businesses such as hairdressers or beauty salons etc. reopened even later and some remain closed.
The footfall of local High Streets rarely reaches a point at which it would be impossible to maintain social distancing requirements. In Denbigh town centre, while I agree there are a couple of pinch points, these are very much the exception rather than the rule.

In the main, the residents of Vale Street, High Street, Beacon's Hill, Grove Road, Barker's Well Lane and other neighbouring roads have voiced strong concerns regarding the proposals in relation to increased traffic and its speed; reduced access to properties and parking spaces; road and pedestrian safety threats; an increase in traffic noise; heavy goods vehicles and buses being forced to use smaller, residential side roads; limited access and blockages for emergency vehicles; queues and tailbacks at various junctions at times when the traffic volumes are higher; and delays caused by refuse vehicles.

Whilst I appreciate the prospect of grant funding from Welsh Government should never be overlooked, I would suggest that these grant terms are sadly more suited to the large urban centres of South Wales, and not the pedestrian and cycling realities of a hilly market town. I would encourage the council to contact Welsh Government to seek permission to use the funds in another way, perhaps to provide pedestrian and cycling links to the former North Wales Hospital site in readiness for its redevelopment. In the longer term, I would not necessarily oppose a quality and permanent scheme of road alterations in Denbigh town centre, but this would need to be fully consulted upon and command the support of businesses and residents. I am supportive of the green agenda and, as a doctor, certainly encourage walking and cycling, but the future priority of semi-rural areas will I feel be electric and hydrogen-powered vehicles and not the marginalisation of the motor car.

Yours sincerely,

**Dr James Davies MP**

**Constituency Office:**
198 High Street, Prestatyn, Denbighshire, LL19 9BP
01745 888920
Website: www.jamesdaviesmp.co.uk

## Atodiad 3 – Sylwadau Ann Jones, Aelod o'r Senedd

**Ann Jones MS Vale of Clwyd**
**Response to Traffic Flow Denbigh Post Covid**

This response is submitted to the proposals announced by Denbighshire County Council to alter the traffic flow in Denbigh in light of the pandemic and the required social distancing that will still be in operation and for the need to see Denbigh Town Centre move to the new normal trading regime.

I feel these proposals have been hurriedly put together in an attempt to meet criteria announced by Welsh Government in May 2020 in response to the Covid pandemic and will not be given due scrutiny by residents in those communities as the consultation is of a short duration and only available to those who can access online services.

I believe the intention of the Welsh Government when offering this grant was to be able to look at schemes that had been approved or received approval from communities around the sustainable travel agenda and looking to reduce the number of cars on the roads and in town centres but had slipped in delivery and that these works should be able to have been carried out whilst there was fewer cars on the roads due to the lockdown restrictions and to provide an opportunity to ensure that town centres can start to return to trading and to allow for residents to have confidence to use local businesses.

This is certainly not the case in relation to this proposal as the proposed start date I understand is the 1st September when the schools are returning for the start of a new academic year and with the uncertainty around pupils returning to schools, it is likely that more parents will want to transport their children to their respective schools.

Turning to the proposals -

There are several mistakes in the proposals that give rise to confusion ; the written proposals refer to Barker's Well Lane yet the map clearly highlights Beacons Hill. Which is it? Removing the market from Hall Square to the Main Street where is Hall Square? Is it meant to be Crown Square?
These examples are given as they raise serious points that if authority staff cannot get locations right, how can residents accept what is being proposed as professional and these mistakes must set doubt in the minds of those who will have to live with the proposals if they go ahead.

I do not believe that these proposals will offer any real benefit either to those walking in the town centre or those who want to drive to Denbigh and then access the town centre.
It would be far better to ensure that pavements are suitable for pedestrians in other areas such as Beacons Hill and certainly on Vale Street just past the short term car park.

Many of the roads in Denbigh where there are pavements do not allow for 2 people to pass safely (even without social distancing) and certainly is dangerous for anyone with a pram or a wheelchair, however, I believe that people will be sensible when coming across these locations.

**Ann Jones MS Vale of Clwyd**
**Response to Traffic Flow Denbigh Post Covid**

To look at extending the width of pavements or even providing a cycle way would be better than re arranging the traffic flow totally to further extend pavements that are already sufficient in width and that will accommodate social distancing that may become the new normal way of operating. Certainly a portion of the pavements is on a split level in the town centre and that may allow for a one way system for pedestrians.

The centre of town already has a wide road that if redesigned may be able to allow for a dedicated cycle lane whilst still maintaining the two way traffic system rather than looking to make this a one way system. To look to seek to put much more traffic along Beacons Hill in both directions is quite dangerous and will lead to severe congestion and even the risk of accidents

Part of the criteria for awarding this funding was that an equality impact assessment must be done , can I ask where this is please and what was its outcome? What work has been done to ensure that persons with disabilities will not be at a disadvantage.

What work has been done with those organisations that assist in town centre planning to ensure there is total equality of access for all?.

What discussions if any have taken place with the emergency services on these proposals, I believe the proposals being offered by the authority may have unintended consequences for the emergency services, again as a result of a hasty approach.

Like many residents who have contacted me I believe these proposals are ill thought out, will not deliver the outcomes expected of the alterations and will not provide best use of scarce funding. The negative benefits for residents along Barker's Well Lane, Grove Road and Beacons Hill will be far greater than an positive benefits of a one way system.

The authority should also state whether these are temporary alterations or whether they will be permanent. There is great concern amongst the community that this is not clear. I note that the document refers to a period of 18 months but many have told me they have heard these changes are intended to become permanent. If the proposals are to form a permanent change then they must not be allowed to be carried out in their present form and certainly not without proper and meaningful scrutiny and should they be for the period of 18 months as stated to assist the return to activity in the town centre post Covid pandemic they should be revisited .

The authority could put the funding to better use than as put forward in this proposal , the continued policy to have shared spaces is not helpful and I would prefer to see a policy change to stop cycle/pedestrian spaces, these should be dedicated pedestrian areas where every pedestrian does not have to constantly worry about cyclists and also for pedestrians with reduced mobility, or have a hearing or sight impairment or other additional needs should not be sharing services with cyclists. Cyclists, too, need their own cycle lanes if we are to see more people using sustainable transport.

*Response from Ann Jones MS to Denbighshire County Council's traffic flow proposals July 2020*

**Ann Jones MS Vale of Clwyd**
**Response to Traffic Flow Denbigh Post Covid**

Whilst there is a need to ensure that the economy can restart, the over reliance on a 'cafe pavement' scene is also problematic for those with impairment if there is to be more street furniture placed in pedestrian areas which will reduce freedom to walk without danger.

I also believe the market being moved will not bring the desired effect the proposals seem to suggest

In Summary :

- Ill thought out proposals that I believe will cause more issues than the present traffic flow and bring far more negative consequences for a group of residents affected by the proposed one way system
- The increasing of shared surfaces does not offer equality of access
- There should be a relook at where possible widening existing pavements to accommodate the required social distancing
- Revisit the cost of these proposals against the outcomes, is this value for money?
- Look to provide dedicated cycle lanes

I am disappointed with the way the Authority has sought to rush these proposals through and I believe it has damaged the reputation with many residents, I believe will be difficult to repair the damage caused and whatever future proposals may come forward I feel that the authority will struggle to persuade the community of any positive benefits.